**Rhif:** WG31841

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Casglu data am y gweithlu ysgolion yng Nghymru

Dyddiad cyflwyno: Awst 2017

© Hawlfraint y Goron 2017 ISBN Digidol 978-1-78859-237-6

# Casglu data am y gweithlu ysgolion yng Nghymru

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Unrhyw barti sydd â diddordeb yn y broses o gasglu a darparu data gweithlu ysgolion, gan gynnwys ymarferwyr, awdurdodau lleol yng Nghymru, undebau addysg, consortia rhanbarthol, cyrff llywodraethu ysgolion, Estyn a Chyngor y Gweithlu Addysg. |
| **Trosolwg** | Mae’r ddogfen hon yn crynhoi’r ymatebion i’r ymgynghoriad ar ddatblygu dull o gasglu data am y gweithlu ysgolion yng Nghymru a rheoliadau statudol drafft a fyddai’n galluogi cyfrifiad gweithlu ysgolion ar lefel unigolion. |
| **Camau i’w cymryd** | Dim – er gwybodaeth yn unig. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:<br>Cangen Ddata’r Gweithlu Addysg<br>Uned Strategaeth y Gweithlu<br>Y Gyfarwyddiaeth Addysg<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>Ffôn: 03000 255 968<br>e-bost: educationworkforcedata@cymru.gsi.gov.uk |
| **Copïau ychwanegol** | Mae’r ddogfen ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/ymgynghoriadau |

# Cynnwys


**Cefndir** **2**
**Cyflwyniad** **3**
**Crynodeb gweithredol** **4**
Gofynion data cyfredol 4
Defnyddio gwybodaeth am gofrestryddion Cyngor y Gweithlu Addysg 4
Eitemau o ddata arfaethedig i’w casglu 4
Y Gymraeg 4
Amser casglu data 5
**Crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad a’r camau gweithredu** **6**
Cwestiwn 1 6
Cwestiwn 2 10
Cwestiwn 3 12
Cwestiwn 4 13
Cwestiynau 5 a 6 15
Cwestiwn 7 17
**Camau nesaf** **18**
**Atodiad: Rhestr o’r ymatebwyr** **19**

# Cefndir

Ar ôl cyhoeddi argymhellion Adroddiad Silk yn 2014, a'r cyhoeddiad dilynol gan y Prif Weinidog ar ddatganoli cyflogau ac amodau gwaith athrawon, pwysleisiwyd yr angen am ddull mwy manwl a chadarn o gasglu data am y gweithlu ysgolion er mwyn ategu'r cyfrifoldebau newydd hyn

Byddai dull canolog o gasglu data yn hwyluso'r broses o ddarparu dadansoddiad manwl er mwyn helpu i gynllunio olyniaeth a nodi unrhyw fylchau recriwtio neu sgiliau yn y gweithlu. Byddai'r wybodaeth hon yn rhoi darlun cynhwysfawr o'r gweithle a sut y mae'n cael ei ddefnyddio, gan helpu i ddatblygu polisïau ar sail gwybodaeth well. Byddai gwell dealltwriaeth o ddemograffeg y gweithlu yn helpu i baratoi'n well ar gyfer newidiadau posib yn y dyfodol ac yn llywio'r broses o recriwtio, datblygu a chadw'r gweithlu yma yng Nghymru.

Mae angen dadansoddiad manwl o'r gweithlu ysgolion er mwyn llywio polisïau ac amcanion allweddol, gan gynnwys diwygio'r cwricwlwm, diwygio addysg gychwynnol athrawon a chefnogi amcanion Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg o sicrhau gweithlu cyfrwng Cymraeg â nifer digonol o ymarferwyr ar gyfer addysg a hyfforddiant ar bob cam. Ar ben hynny, byddai gwybodaeth fanylach am ddemograffeg a chyflogau'r gweithlu addysg yn cefnogi amcan Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru o weithio gyda phartneriaid i nodi a mynd i'r afael ag achosion o wahaniaethau o ran cyflogau a chyflogaeth ar sail rhyw, ethnig ac anabledd yn y sector addysg.

Ar hyn o bryd caiff gwybodaeth gyfyngedig am y gweithlu ei chasglu trwy gyfrwng ymarferion casglu data ac arolygon amrywiol gydol y flwyddyn. Mae gwybodaeth gyfanredol am faint y gweithlu'n cael ei chasglu bob blwyddyn yn y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) ac mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn casglu rhywfaint o wybodaeth ddemograffig am athrawon fel rhan o'r broses gofrestru. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn casglu data am absenoldeb salwch athrawon ar lefel gyfanredol gan awdurdodau lleol bob blwyddyn.

Nid yw'r ffynonellau hyn yn ddigonol ar gyfer cynllunio'r gweithlu neu fel tystiolaeth i benderfyniadau polisi, ac nid ydynt yn rhoi digon o dystiolaeth i gefnogi trafodaethau blynyddol ar gyflogau ac amodau athrawon yng Nghymru. Gyda mwy a mwy o wahaniaethau rhwng cyflogau ac amodau gwaith athrawon Cymru a Lloegr, mae'n hollbwysig bod y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn seiliedig ar dystiolaeth gryf a chadarn sy'n adlewyrchu'n gywir cyfansoddiad ac anghenion gwirioneddol y gweithlu yng Nghymru. Felly, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar gynigion a fyddai'n arwain at ddatblygu proses o gasglu data ar y gweithlu ysgolion yma yng Nghymru.

# Cyflwyniad

Bu Llywodraeth Cymru’ n ymgynghori ar reoliadau arfaethedig a fyddai’n caniatáu cyfrifiad o’r gweithlu ysgolion i gael ei gynnal ar lefel unigolion yng Nghymru. Byddai’r cynigion hyn yn ein galluogi i gasglu data mwy cadarn a manwl ar y gweithlu ysgolion a rhoi’r gorau i’r dull cyfredol o gasglu gwybodaeth am y gweithlu, sef elfennau’r gweithlu Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a chasglu data blynyddol am absenoldeb salwch athrawon.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 13 Ionawr a 3 Mawrth 2017.
Fe wnaeth y rhan fwyaf o’r ymatebwyr ddefnyddio’r ffurflen ymateb ar-lein, a thri trwy lythyr. Felly, er na chafodd yr holl gwestiynau eu hateb gan bob ymatebydd, mae’r themâu allweddol wedi’u cynnwys yn y crynodeb hwn.

Daeth 34 o ymatebion i law, gyda phedwar yn dewis parhau’n anhysbys. Dyma ddadansoddiad o’r ymatebwyr:

| Sefydliad | Nifer yr ymatebion | % ymatebion |
|---|---|---|
| Awdurdodau lleol | 8 | 24% |
| Undebau’r gweithlu ysgolion | 7 | 21% |
| Elusennau a sefydliadau eraill | 6 | 18% |
| Cyrff annibynnol | 5 | 15% |
| Gweithwyr addysg proffesiynol | 3 | 9% |
| Unigolion | 3 | 9% |
| Consortia rhanbarthol | 2 | 6% |

Mae’r adroddiad hwn yn crynhoi’r sylwadau a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac yn cyflwyno ymateb Llywodraeth Cymru. Rhoddwyd ystyriaeth lawn i’r holl ymatebion yn ystod y broses, gan gadw mewn cof natur gynrychioliadol, arbenigedd, profiad/gwybodaeth berthnasol ac ati yr ymatebydd.

# Crynodeb gweithredol

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn croesawu'r angen am ddull cynhwysfawr o gasglu data am y gweithlu ysgolion. Fodd bynnag, codwyd cwestiynau am rai o elfennau'r cynnig, fel y defnydd o ddata cofrestryddion Cyngor y Gweithlu Addysg ac roedd rhai angen sicrwydd pellach am breifatrwydd a chyfrinachedd casglu data o'r fath.

## Gofynion data cyfredol

Cafwyd cydnabyddiaeth eang nad yw'r casgliadau data cyfredol ar y gweithlu ysgolion yn bodloni'r gofynion yn llawn, yn enwedig er mwyn cynllunio'r gweithlu a chefnogi'r broses o ddatganoli cyflogau ac amodau athrawon. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r angen am ddata ar lefel unigolion, er mwyn cysylltu data rhwng ffynonellau, olrhain tueddiadau dros amser ac asesu'n gywir hyd a lled y gweithlu ar hyn o bryd.

Er hynny, roedd rhai'n poeni am ddefnyddio data ar lefel unigolion yn hytrach nag ar lefel crynodeb oherwydd peryglon cyfrinachedd. Gofynnwyd am sicrwydd sut y byddai'r dulliau o gasglu'r eitemau o ddata arfaethedig yn cael eu cadw'n saff a diogel.

## Defnyddio gwybodaeth am gofrestryddion Cyngor y Gweithlu Addysg

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cyfrifiad ar lefel unigolion gan ddefnyddio data awdurdodau lleol a systemau ysgolion, ond yn anghytuno â'r bwriadu i gysylltu'r data hwn â Chofrestr Ymarferwyr Cyngor y Gweithlu Addysg. Roeddent yn pwysleisio bod Cyngor y Gweithlu Addysg yn gorff rheoleiddio annibynnol ac felly byddai ei gwneud hi'n ofynnol i'r corff ddarparu gwybodaeth am unigolion o'i gofrestr yn amhriodol.

Hefyd, roedd rhai'n poeni y gall aelodau unigol o'r gweithlu ddewis celu gwybodaeth rhag Cyngor y Gweithlu Addysg pe bai'n cael ei throsglwyddo i Lywodraeth Cymru, ac felly'n lleihau ansawdd y data sydd ar y gofrestr yn y tymor hir.

Ar y llaw arall, dywedodd ymatebwyr eraill mai cyfrifiad ar lefel unigolion sy'n defnyddio cofrestr Cyngor y Gweithlu Addysg oedd y dull mwyaf priodol o gasglu gwybodaeth, gan y byddai'n osgoi ailadrodd, yn golygu'r dull lleiaf beichus i ysgolion ac awdurdodau lleol, ac yn dilyn yr egwyddor graidd ar gasglu data sef 'casglu gwybodaeth unwaith a'i defnyddio sawl gwaith'.

## Eitemau o ddata arfaethedig i'w casglu

Roedd y mwyafrif yn cytuno â'r eitemau o ddata arfaethedig i'w casglu, gan gydnabod bod angen casglu mwy o wybodaeth fanwl am y gweithlu ysgolion. Cafwyd rhai pryderon am gasglu manylion contract a gwybodaeth am absenoldebau, gyda rhai'n gofyn am fwy o fanylion ar yr eitemau penodol i'w casglu dan y categorïau hyn.

## Y Gymraeg

Dadl gyson oedd y byddai datblygu'r broses o gasglu eitemau o ddata yn ymwneud â'r Gymraeg yn helpu i gyrraedd nod Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Ymatebodd llawer trwy ddweud y byddai dealltwriaeth well o sgiliau Cymraeg y gweithlu ysgolion yn helpu i sicrhau mwy o dystiolaeth ar gyfer cynllunio'r gweithlu a thargedu adnoddau er mwyn addysgu'r Gymraeg mewn ysgolion.

Roedd ambell ymatebydd yn credu y dylid cynnal gwaith pellach er mwyn pennu pa eitemau o ddata yn union a fyddai'n darparu'r darlun mwyaf cywir o sgiliau Cymraeg y gweithlu.

## Amser casglu data

Tra bod ymatebwyr yn cytuno â'r dull arfaethedig o gasglu data, roedd y rhan fwyaf yn cytuno mai mis Tachwedd oedd y dyddiad addas i wneud hynny. Fodd bynnag, cafwyd awgrymiadau amgen gan eraill fel casglu'r cyfrifiad yr un pryd â'r CYBLD er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o amser.

Derbyniwyd yn gyffredinol fod 27 diwrnod yn ddigon o amser i gasglu data, er i rai ofyn am ragor o fanylion am hyn – ai fel diwrnodau gwaith neu ddiwrnodau calendr - tra'r oedd eraill yn argymell ymgynghoriad pellach â darparwyr data i weld a fyddai hyn yn ddigon o amser.

## Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a'r camau gweithredu

Mae'r adran hon yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd i bob cwestiwn ar ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ac ymateb Llywodraeth Cymru wedyn. Dylid nodi na wnaeth pob ymatebydd ateb pob cwestiwn.

### Cwestiwn 1

**Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gynnal cyfrifiad lefel unigolion ar y gweithlu ysgolion sy'n defnyddio Cofrestr Ymarferwyr Cyngor y Gweithlu Addysg?**

#### Crynodeb o'r ymatebion

| | Nifer yr ymatebion | % ymatebion |
|---|---|---|
| Cytuno | 19 | 61% |
| Anghytuno | 9 | 29% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 3 | 10% |
| *Cyfanswm* | *31* | *100%* |

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn cytuno mai cynnal cyfrifiad ar lefel unigolion gan ddefnyddio Cofrestr Ymarferwyr Cyngor y Gweithlu Addysg oedd y dewis gorau ar gyfer datblygu'r broses o gasglu data ar y gweithlu ysgolion. Nododd llawer o ymatebwyr mai dyma fyddai'r dewis gorau o ran peidio ag ailadrodd y gwaith o gasglu gwybodaeth sydd ar gael a sicrhau cyn lleied â phosib o lwyth gwaith cysylltiedig i ysgolion ac awdurdodau lleol.

Roedd yr atebion a gafwyd yn cynnwys y canlynol:

- Bydd Opsiwn 5 yn helpu i leihau'r baich ar ysgolion trwy gael cymaint o ddata ag sy'n bosib gan ffynonellau cyfredol - systemau awdurdodau lleol a Chyngor y Gweithlu Addysg. (Awdurdod lleol)

- Rydym yn cytuno gydag opsiwn 5 gan y byddai'n lleihau'r baich ar ddarparwyr trwy ddilyn yr egwyddor 'casglu gwybodaeth unwaith a'i defnyddio sawl gwaith'. Hefyd, dylid casglu gwybodaeth yn y fan a'r lle a dadansoddi'r data'n ganolog. (Corff annibynnol)

- Byddai'n sicrhau'r ffordd leiaf beichus o gasglu data, gan ei fod yn defnyddio data sydd eisoes yn y systemau amrywiol. (Undeb)

- Rhaid i unrhyw ddata sy'n ofynnol gan ysgolion neu awdurdodau lleol beidio â dyblygu unrhyw ddata cyfredol sy'n cael ei gasglu ac sydd ar gael yn gyhoeddus. (Corff annibynnol)

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn cytuno ac yn cefnogi'r dull o gasglu mewn egwyddor, ond yn pwysleisio pa mor bwysigrwydd yw sicrhau bod unrhyw faich ychwanegol ar ddarparwyr data mor isel â phosib.

- Credwn ei bod yn bwysig iawn na fyddai casglu'r wybodaeth ar lefel unigol yn ychwanegu at lwyth gwaith sylweddol athrawon na phenaethiaid. (Undeb)

- …bydd angen cymryd gofal mawr nid yn unig wrth fframio'r Rheoliadau terfynol ond hefyd wrth gynllunio cwestiynau'r holiadur cipio data a'r canllawiau cysylltiedig i awdurdodau lleol ac ysgolion er mwyn sicrhau lefel uchel o gysondeb a chydymffurfiaeth nad yw'n creu llwyth gwaith ar ysgolion ac awdurdodau lleol. (Undeb)

- … Fodd bynnag, dymunwn bwysleisio y dylid sicrhau nad yw gofynion y casgliad yn ychwanegu yn sylweddol at lwyth gwaith Ysgolion ac Awdurdodau. (Consortia)

Cydnabuwyd bod angen dull manylach o gasglu data am y gweithlu, er mwyn cynllunio'r gweithlu a helpu i ddatganoli cyflogau ac amodau gwaith.

Roedd yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- Heb ddata cywir a chyfredol, ni fydd yn bosibl i Lywodraeth Cymru adnabod nodweddion ac anghenion y gweithlu addysg yng Nghymru, fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol (4.10). Gyda datganoli Cyflog ac Amodau athrawon i Gymru, y mae'r wybodaeth hon yn angenrheidiol. (Undeb)

- Mae GwE yn cytuno bod angen dull mwy manwl o gasglu data am y gweithlu ysgolion er mwyn cael gwybodaeth gadarn o'r gweithlu addysg er mwyn cynorthwyo i baratoi'n well ar gyfer newidiadau posib yn y dyfodol ac i lywio'r broses recriwtio, datblygu a chadw'r gweithlu yma yng Nghymru. Croesawn hefyd ddull canolog a chydlynus i gasglu data er mwyn sicrhau cysondeb ar draws Cymru. (Consortia)

- Nid yw dulliau Llywodraeth Cymru o gasglu data am y gweithlu ysgolion yn ddigon manwl na safonol ar hyn o bryd i gynllunio'r gweithlu yn effeithiol. Mae datganoli'r rheolaeth dros gyflogau athrawon i'r Cynulliad yn golygu bod hyd yn oed mwy o frys am ddata manwl. (Sefydliad arall)

Er bod y mwyafrif yn cytuno â'r cynigion, roedden nhw eisiau'r sicrwydd y byddai'r dull o gasglu data yn bodloni gofynion y Ddeddf Diogelu Data ac y byddai data ar unigolion yn parhau'n ddiogel drwy'r amser.

- Rydym yn cytuno â'r cynnig yn amodol ar sicrwydd bod y cyfrifiad ar lefel unigolion yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998. (Awdurdod lleol)

- Mae angen i'r crynodeb o'r cynigion a'r Rheoliadau ddarparu llawer mwy o eglurder a sicrwydd ynghylch sut bydd y data hwn yn cael ei ddefnyddio, ei storio a'i gyfathrebu... Gallwn weld manteision cyfrifiad ar lefel unigolion os caiff y pryderon cydnabyddedig am ddefnyddio data personol eu taclo. (Undeb)

Roedd gan rai o'r ymatebwyr bryderon sylweddol am y defnydd o gofrestr Cyngor y Gweithlu Addysg. Roedd y pryderon yn cynnwys statws annibynnol Cyngor y Gweithlu Addysg, y posibilrwydd o ailadrodd gwaith dadansoddi a materion ynghylch ansawdd data.

- Mae gan y Cyngor bryderon penodol am y cynnig i'w gwneud hi'n ofynnol iddo ddarparu data ar lefel unigolion o'i Gofrestr i Lywodraeth Cymru. Corff proffesiynol yw Cyngor y Gweithlu Addysg, sy'n annibynnol ar y llywodraeth; nid yw'n gorff a noddir

gan Lywodraeth Cymru sy'n cael ei ariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru (Corff annibynnol).

- Mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn cyflawni rôl bwysig fel rheoleiddiwr, ac er mwyn datblygu a chadw hyder ac ymddiriedaeth y gweithwyr proffesiynol hynny sydd wedi cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg, ni ddylid peryglu'r swyddogaeth graidd honno. (Undeb)

- Mae casglu data ar lefel unigolion yn cynnig cyfleoedd defnyddiol i gysylltu gwybodaeth a ffynonellau data gweinyddol cyfredol sydd yn nwylo Cyngor y Gweithlu Addysg. Fodd bynnag, rydym yn rhybuddio nad yw cofrestr Cyngor y Gweithlu Addysg o bosib yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf bob amser gan ei fod yn dibynnu'n fawr ar unigolion yn diweddaru eu manylion. Hefyd, nid yw Cyngor y Gweithlu Addysg yn cadw gwybodaeth am staff gweinyddol a safleoedd sy'n hollbwysig i weithlu'r ysgol. (Corff annibynnol)

- Mae Cyngor y Gweithlu Addysg eisoes yn cyhoeddi ystod o wybodaeth am y gweithlu addysg yn ei Grynodeb Ystadegau blynyddol, ac yn darparu dadansoddiad manwl o'r data sydd yn ei feddiant. Mae'n ymddangos mai'r bwriad fydd creu dyblygiad diangen o'r dadansoddiadau hyn (Unigol).

Hefyd, roedd y sylwadau'n awgrymu pe bai Cyngor y Gweithlu Addysg yn darparu data ar lefel unigolion i Lywodraeth Cymru, y gallai ymarferwyr ddewis celu eu gwybodaeth o'r gofrestr:

- Does dim gorfodaeth i ddarparu'r wybodaeth hon i Gyngor y Gweithlu Addysg, felly mae'n dasg digon anodd fel y mae i'r Cyngor. Gall gofyniad pellach i rannu'r wybodaeth hon ar lefel unigolion godi amheuon pobl, a'u gwneud yn gyndyn i roi gwybodaeth iddynt yn y lle cyntaf. (Undeb)

- Os bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio data Cyngor y Gweithlu Addysg, yna risg cynhenid hynny yw y gall aelodau o'r gweithlu benderfynu celu gwybodaeth bwysig wrth gofrestru – gwybodaeth a fyddai fel arall o gymorth i ddatblygu darlun gwirioneddol gywir ledled Cymru, ac felly'n golygu nad dyma'r data mwyaf defnyddiol o ran cynllunio gweithlu'r dyfodol mwyach. (Undeb)

Cynigiwyd dull amgen o gasglu data am y gweithlu ysgolion, sef mai Cyngor y Gweithlu Addysg sy'n cynnal cyfrifiad ar lefel unigolion yn hytrach na Llywodraeth Cymru.

- …gallai Llywodraeth Cymru ofyn i Gyngor y Gweithlu Addysg gasglu data sy'n cael ei ddarparu gan CYBLD ac arolygon eraill awdurdodau lleol/ysgolion ar ran Llywodraeth Cymru, a'i baru â data cofrestru Cyngor y Gweithlu Addysg er mwyn dadansoddi'r cyfan. (Unigolyn)

- Fel rhan o broses adnewyddu ffi cofrestru blynyddol Cyngor y Gweithlu Addysg, mae'r Cyngor yn cyfnewid data â'r holl awdurdodau lleol ym mis Chwefror ac Ebrill er mwyn hwyluso'r broses o ddidynnu'r ffi cofrestru blynyddol o gyflogau'r gweithwyr. Gallai'r Cyngor wella hynny er mwyn casglu data ychwanegol ar ran Llywodraeth Cymru. Byddai hynny'n golygu na fydd angen i Lywodraeth Cymru gadw gwybodaeth bersonol am gofrestryddion gan na fyddai gofyniad i baru cofnodion o ffynonellau gwahanol. (Corff annibynnol)

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o faich y broses ddigyswllt gyfredol o gasglu data ac arolygon ar athrawon unigol, ysgolion ac awdurdodau lleol. Byddai datblygu cyfrifiad gweithlu ysgolion yn caniatáu i eitemau o ddata gael eu casglu unwaith a'u rhannu'n briodol, ac felly'n atal ysgolion ac awdurdodau lleol rhag gorfod darparu eitemau o ddata ad hoc gydol y flwyddyn, yn aml gyda diffiniadau gwahanol ac yn ystod cyfnodau gweinyddol prysur.

Hefyd, mae casglu data ar lefel unigolion yn hytrach na data cryno yn cael ei ystyried yn llai beichus ar ddarparwyr data. Mae darparu data cryno yn aml yn defnyddio mwy o adnoddau oherwydd y gwaith dadansoddi a chyfanredu sy'n ofynnol cyn cyflenwi'r data.

Hefyd, byddai casglu data cyfanredol yn golygu na ellid cysylltu data o ffynonellau gwahanol. Er enghraifft, ni ellid cysylltu gwybodaeth recriwtio a chadw o systemau gwybodaeth ysgolion â'r data cymwysterau, neu ni ellid dadansoddi gwybodaeth am gyflogau o systemau cyflogres awdurdodau lleol yn erbyn gwybodaeth am gydraddoldeb demograffeg, gan felly rwystro'r gallu i greu dadansoddiad mwy manwl ar faterion perthnasol i'r gweithlu a datblygu darlun mwy cywir o faes y gweithlu cyfredol ac sy'n datblygu. Ni fyddai casglu gwybodaeth ar lefel grynodeb yn fodd i ddadansoddi patrymau'r gweithlu dros amser, fel cyfraddau'r rhai sy'n ymuno ac yn gadael y proffesiwn, ac felly ni fyddai'n darparu tystiolaeth ddigonol ar gyfer cynllunio'r gweithlu.

Er bod llawer o'r eitemau o ddata a gynigir i'w casglu eisoes ar gael mewn systemau ysgolion ac awdurdodau lleol at ddibenion rheoli, mae'n debygol y bydd angen adnoddau ar gyfer y gwaith casglu cychwynnol er mwyn sicrhau bod yr holl feysydd yn cael eu llenwi a bod gan eitemau o ddata ddiffiniadau cyson ledled yr holl sefydliadau. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i ymgysylltu ag ysgolion ac awdurdodau lleol er mwyn pennu pa mor sylweddol fyddai'r effaith gychwynnol hon.

O ran y pryderon am gyfrinachedd data, mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau ymatebwyr y bydd y broses o gasglu data'n cael ei gwneud yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data (a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a fydd yn disodli'r Ddeddf Diogelu Data o fis Mai 2018) ac y bydd data ar lefel unigolion yn parhau'n ddiogel gydol y broses gasglu a chysylltu. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cynnal cyfrifiad ar lefel disgyblion unigol (CYBLD) felly mae systemau ar waith yn barod i drosglwyddo cofnodion unigol yn ddiogel gan sicrhau cyfrinachedd.

Rydym wedi nodi'r sylwadau ar ddefnyddio cofrestr Cyngor y Gweithlu Addysg i gasglu data a bydd Llywodraeth Cymru yn diddymu Atodlen 2 o'r rheoliadau drafft, sy'n gosod gofyniad ar Gyngor y Gweithlu Addysg i ddarparu cofnodion ar lefel unigolion o'r gofrestr. Fodd bynnag, cynigir y bydd data ar ethnigrwydd ac anabledd a oedd yn rhan o Atodlen 2, yn dal yn rhan o'r rheoliadau ac yn cael ei gasglu gan awdurdodau lleol yn lle. Mae pwerau perthnasol eisoes yn bodoli er mwyn casglu data gofynnol yn rhesymol gan Gyngor y Gweithlu Addysg yn adran 35 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 felly bydd Llywodraeth Cymru yn dal i weithio mewn partneriaeth â Chyngor y Gweithlu Addysg i nodi pa eitemau o ddata fydd yn cael eu cyflenwi o'r gofrestr ar lefel unigolyn neu grynodeb. Lle mae data ar gael o Gyngor y Gweithlu Addysg, ac yn cael ei ystyried o'r lefel, y cywirdeb a'r fformat priodol, yna ni fydd angen ailgasglu'r data hwn gan ysgolion neu awdurdodau lleol.

Fodd bynnag, nid yw'r awgrym bod Cyngor y Gweithlu Addysg yn cynnal cyfrifiad o'r gweithlu ysgol gyfan yn cael ei ystyried yn briodol. Corff rheoleiddio proffesiynol annibynnol yw Cyngor y Gweithlu Addysg, nad yw'n casglu nac yn cyhoeddi ystadegau swyddogol, ac felly nid oes ganddo unrhyw gylch gorchwyl o ran cyflogau neu gynllunio'r gweithlu.

## Cwestiwn 2

**Ar hyn o bryd mae'r rheoliadau drafft yn cynnig y bydd gan ysgolion, awdurdodau lleol a Chyngor y Gweithlu Addysg 27 diwrnod i gwblhau'r ffurflenni data gyda'r cyfrifiad i'w gynnal ym mis Tachwedd. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?**

### Crynodeb o'r ymatebion

| | **Nifer yr ymatebion** | **% ymatebion** |
|---|---|---|
| Cytuno | 14 | 45% |
| Anghytuno | 9 | 29% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 8 | 26% |
| *Cyfanswm* | *31* | *100%* |

Cafwyd sylwadau cymysg o ran dyddiad cyfrifiad mis Tachwedd a chyfnod casglu o 27 diwrnod. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o betruser ac anghytuno, gyda'r rhai a anghytunai yn poeni'n gyffredinol am ddatblygu dull o gasglu data yn hytrach na gyda'r amserlenni arfaethedig eu hunain.

Roedd pump o'r wyth awdurdod lleol yn cytuno y byddai'r cyfnod casglu arfaethedig yn ddigonol, er bod rhai (yn ogystal ag ambell undeb athrawon) angen eglurder ai 27 diwrnod gwaith neu galendr oedd dan sylw. Hefyd, nododd rhai y byddai angen darparu mwy o fanylion ar y broses casglu data cyn y gallent gadarnhau bod 27 diwrnod yn ddigonol:

- Hyd nes bod manylion y broses gasglu'n glir, mae'n anodd ymateb i'r cwestiwn hwn. Nid yw'n glir a fyddai gwybodaeth am ysgolion yn cael eu casglu gan ysgolion unigol neu a fyddai disgwyl i awdurdodau lleol gael y wybodaeth hon a rhoi adborth i'r holl bartïon wedyn. Os oes disgwyl i awdurdodau lleol feithrin rôl gydlynu, mae 27 diwrnod yn debyg o fod yn annigonol. (Awdurdod lleol)

- Rydym yn cytuno ei bod yn ymddangos yn amserlen resymol, ond byddai'n dibynnu a yw'n cynnwys proses ddilysu hefyd, sut fyddai hynny'n digwydd ac unrhyw amserlenni sy'n gysylltiedig â hynny. (Awdurdod lleol)

Nodwyd hefyd, ym mlwyddyn gynta'r broses o gasglu data, y dylid neilltuo hyblygrwydd i'r cyfnod casglu er mwyn caniatáu ar gyfer problemau technegol posib.

Cynigiwyd sawl dyddiad amgen i ddyddiad cyfrifiad mis Tachwedd, gan gynnwys cynnal cyfrifiad y gweithlu ysgolion ochr yn ochr â'r CYBLD ym mis Ionawr:

- Tra'n cytuno ar y rhesymeg i gynnal y cyfrifiad ym mis Tachwedd, nid yw GwE o'r farn bod cynnal dau gyfrifiad blynyddol (cyfrifiad gweithlu a chyfrifiad CYBLD) ar

amseroedd gwahanol yn ystod y flwyddyn yn dderbyniol nac ychwaith yn effeithlon ac yn gwneud y defnydd gorau o amser, yn enwedig mewn ysgolion bach. Barn GwE yw y byddai cyplysu’r ddau gyfrifiad a’i gynnal ar yr un amser yn flynyddol yn gwneud gwell defnydd o amser ac yn fwy effeithlon. (Consortia)

- Byddai’n ymddangos yn ddoeth i gysoni unrhyw ddyddiad cyfrifiad â phrosesau tebyg ar lefel ysgolion gan gynnwys ffurflenni CYBLD. (Undeb)

- Rydym yn awgrymu mis Rhagfyr fel dyddiad casglu, er mwyn rhoi amser i ysgolion gwblhau eu hadolygiad o berfformiad / cyflogau blynyddol (o fis Medi ymlaen), ond yn aml mae systemau’n cael eu diweddaru ym mis Hydref/Tachwedd. Bydd hyn yn osgoi’r cyfnodau prysur a sicrhau bod y data diweddaraf at ddibenion cyflogau ar gael ar gyfer y cyfrifiad. (Awdurdod lleol)

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau ymatebwyr y bydd darparwyr data yn cael digonedd o rybudd cyn casglu data ac y bydd hyblygrwydd yn cael ei gynnig yn ystod y casgliadau cychwynnol, oherwydd rydym yn deall y gall fod rhagor o waith er mwyn sicrhau bod y cofnodion wedi’u diweddaru ac wedi’u diffinio’n gyson.

Y cyfnod casglu ffurfiol arfaethedig yw 27 diwrnod gwaith, yn hytrach na diwrnodau calendr, ac mae’n cael ei ystyried yn gyfnod priodol. Bydd darparwyr yn cael digon o rybudd ymlaen llawn pryd fydd y cyfnod yn dechrau, er mwyn caniatáu amser paratoi ar gyfer casglu data bob blwyddyn. Fodd bynnag, byddwn yn cysylltu ymhellach ag ysgolion ag awdurdodau lleol i drafod amseriad posib y cyfrifiad cyn cytuno ar ddyddiad terfynol.

## Cwestiwn 3

**Pa ffynonellau data am y gweithlu ysgolion ydych chi'n eu defnyddio ar hyn o bryd?**

### Crynodeb o'r ymatebion

| | Nifer yr ymatebion | % yr ymatebion |
|---|---|---|
| Crynodeb Ystadegol Blynyddol CGA | 20 | 71% |
| Bwletin Blynyddol CYBLD | 18 | 64% |
| Data agored StatsCymru | 19 | 68% |
| *Nifer sylfaen yr ymatebwyr* | *28* | |

Fe wnaeth yr holl ymatebwyr i'r cwestiwn hwn ddefnyddio o leiaf un o'r ffynonellau data cyfredol ar y gweithlu ysgolion.

Crynodeb ystadegau blynyddol Cyngor y Gweithlu Ysgolion yw'r ffynhonnell ddata sy'n cael ei ddefnyddio fwyaf, gyda 71% o'r ymatebwyr yn dweud eu bod yn ei ddefnyddio. Fodd bynnag, ymddengys nad yw awdurdodau lleol ar y cyfan yn defnyddio'r crynodeb hwn yn benodol, gyda 6 o'r 7 a ymatebodd yn dweud nad ydynt yn ei ddefnyddio.

Pwysleisiwyd pa mor ddefnyddiol yw crynodeb cyfredol Cyngor y Gweithlu Addysg:

- Mae'r Crynodeb Blynyddol eisoes yn ffynhonnell ddata unigryw a fydd yn cynnwys data ar y gweithlu addysg gyfan yn y dyfodol. (Unigolyn)

- Mae'r Crynodeb Blynyddol yn cael ei gynhyrchu gan y Cyngor o'i ffynonellau data unigryw a bydd yn cynnwys data perthnasol i'r holl weithlu addysg yn y dyfodol. (Corff annibynnol)

Fodd bynnag, dywedodd ambell ymatebydd, yn enwedig sefydliadau ymchwil ac academaidd, bod y crynodeb ystadegau o ddefnydd cyfyngedig iddyn nhw:

- Mae Crynodeb Ystadegau Blynyddol Cyngor y Gweithlu Addysg yn darparu crynodeb defnyddiol o gyfansoddiad y gweithlu addysgu yng Nghymru, ond nid yw'n cynnwys ffigurau am bynciau perthnasol fel cadw neu drosiant athrawon. (Sefydliad arall)

- Mae crynodeb ystadegau blynyddol o ddefnydd cyfyngedig braidd i'n dibenion ni. Er enghraifft, nid yw'r wybodaeth yn cwmpasu ysgolion cynradd, nid yw'n gwahaniaethu rhwng cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, ac o ran hyfforddiant pwnc, does dim modd dweud faint o'r rhai sydd wedi hyfforddi i ddysgu gwyddoniaeth sydd â gradd israddedig flaenorol yn y gwyddorau cemegol. (Sefydliad arall)

Nodwyd problemau pellach gyda data agored CYBLD sy'n cael ei gyhoeddi ar wefan StatsCymru:

- Un mater sydd angen mynd i'r afael ag e yw'r trawsddilysu cyfredol o ddata athrawon â data dosbarthiadau yn ffurflenni ysgolion CYBLD. (Awdurdod lleol)

- Mae data agored StatsCymru yn anodd i'w ddehongli. (Undeb)

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'n ddiddorol gweld yr holl ffynonellau amrywiol sy'n cael eu defnyddio gan ymatebwyr ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae'n amlwg nad yw'r ffynonellau'n diwallu anghenion defnyddwyr cyfredol. Byddai datblygu casgliadau data cyfredol yn fodd i ddadansoddi tueddiadau dros amser a gwneud cymariaethau manylach â gwledydd sydd â dulliau manylach o gasglu data'r gweithlu.

## Cwestiwn 4

**Ar hyn o bryd mae'r rheoliadau drafft yn cynnig casglu eitemau o ddata mewn saith categori. Ydych chi'n cytuno â chasglu'r categorïau hyn?**

### Crynodeb o'r ymatebion

| | Cytuno | | Anghytuno | | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer yr ymatebion | % ymatebwyr | Nifer yr ymatebion | % ymatebwyr | Nifer yr ymatebion | % ymatebwyr |
| Manylion staff | 21 | 68% | 3 | 10% | 7 | 23% |
| Contract a chytundeb gwasanaeth | 21 | 68% | 3 | 10% | 7 | 23% |
| Absenoldebau | 20 | 65% | 4 | 13% | 7 | 23% |
| Cwricwlwm | 21 | 68% | 3 | 10% | 7 | 23% |
| Cymwysterau | 22 | 71% | 2 | 6% | 7 | 23% |
| Recriwtio a chadw | 22 | 71% | 6 | 19% | 3 | 10% |
| Iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg | 24 | 77% | 2 | 6% | 5 | 16% |
| *Nifer sylfaen yr ymatebwyr* | *31* | | | | | |

Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r syniad o gasglu data o fewn y categorïau penodedig, codwyd pryderon pellach ynglŷn â chasglu data'n gyffredinol yn ogystal â rhai categorïau penodol.

Roedd y pryderon hyn yn ymwneud yn bennaf â defnyddio data ar lefel unigolion yn hytrach na data crynodeb, yn enwedig o ran manylion ac absenoldebau staff, a'r peryglon cyfrinachedd sy'n gysylltiedig â hyn.

Roedd yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- Does dim problem o ran cyflenwi'r manylion hyn ar lefel grynodeb. Fodd bynnag, os nad yw'r manylion hyn eisoes ar gael i'r cyhoedd, nid oes angen ar hyn o bryd i unigolion eu darparu. (Undeb)

- Rydym yn deall yr angen i Lywodraeth Cymru gael gafael ar setiau data mwy cyflawn ac amrywiol ar y gweithlu ysgolion, ond nid ydym yn cytuno y dylai manylion personol fod yn rhan o'r setiau hynny. (Undeb)

Fodd bynnag, roedd eraill yn cydnabod bod angen casglu data ar lefel unigolion at ddibenion cysylltu, cyn belled â'i fod yn parhau'n gyfrinachol gydol y broses, gan nodi manteision cysylltu'r casgliad â ffynonellau data eraill:

- Mae'r angen i gysylltu'r rhannau amrywiol o'r ffrydiau data uchod yn amlwg – er mwyn asesu'r holl weithlu'n gywir – er enghraifft, os oes gan athro unigol fwy nag un contract. Er hynny, rhaid parhau i ddiogelu cyfrinachedd yr unigolyn. (Undeb)

- Mae cyfrifiad o'r gweithlu ysgolion yn Lloegr wedi'i gysylltu'n ddiweddar â chofnodion hyfforddiant cychwynnol athrawon. Mae hyn wedi galluogi ymchwil newydd i gael ei gynnal er mwyn mesur cyfraddau cadw athrawon a aeth drwy'r llwybrau hyfforddi gwahanol, ac er mwyn cael dealltwriaeth fanylach o'r system hyfforddi athrawon a'r goblygiadau ar gynllunio'r gweithlu. (Sefydliad arall ar y rhesymau pam mae cysylltu data yn gwella ymchwil).

Roedd rhai o'r ymatebwyr angen eglurder ar beth fyddai'r categorïau data amrywiol yn eu cynnwys, yn enwedig o safbwynt absenoldebau a chytundebau contract:

- Nid yw'n glir, fodd bynnag, beth sy'n ofynnol o fanylion y contract ac ar ba lefel y byddai angen manylion o'r fath. Mae llawn amser v rhan-amser yn ddealladwy a chyfrif pennau v cyfwerthedd llawn amser yn gwneud synnwyr, ond nid yw'n glir o gwbl sut allai manylion contractau helpu i flaengynllunio'r gweithlu. (Awdurdod lleol)

- A fyddai data absenoldebau staff yn cael ei ystyried fel data personol; beth fyddai diben casgliad cenedlaethol o'r wybodaeth hon? Sut fyddwch chi'n sicrhau na ellir ei gysylltu/nad yw'n gysylltiedig â staff unigol? Efallai y bydd pryder tebyg yn cael ei godi am y contract a'r cytundeb gwasanaeth, ond byddai'n dibynnu mwy ar lefel y data oedd yn ofynnol ar y pwynt hwn. (Anhysbys)

Unwaith eto, mynegwyd pryderon am ddefnyddio cofrestr Cyngor y Gweithlu Addysg i ddarparu'r manylion hyn.

- Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i Lywodraeth Cymru dderbyn dadansoddiad data o safon er mwyn llywio cyfeiriad polisi. Fodd bynnag, mae pryderon y Cyngor yn ymwneud â'r cynnig y dylid rhannu data personol am gofrestryddion yn llawn â Llywodraeth Cymru a sefydliad arall y trydydd sector o bosib (Corff annibynnol)

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Bydd Llywodraeth Cymru'n darparu canllawiau manwl ar yr union eitemau o ddata i'w casglu cyn casglu'r data cychwynnol. Fodd bynnag, gallwn gynnig rhywfaint o eglurder ar y meysydd yr oedd ymatebwyr yn poeni amdanynt.

Wrth gasglu gwybodaeth am absenoldebau, rhesymau lefel uchel fel absenoldeb salwch, hyfforddiant neu gyfnod mamolaeth fydd hynny. Mae'r categorïau absenoldebau yn cyfeirio at unrhyw weithgaredd neu amgylchiad sy'n dwyn aelod o'r staff o'i ddyletswyddau arferol gyda'i gyflogwr arferol am hanner diwrnod neu fwy. Ni fydd Llywodraeth Cymru'n casglu disgrifiad o absenoldeb salwch unigolion. Nid yw casglu'r wybodaeth hon ar lefel gofnodi yn ymwneud ag atebolrwydd unigol, ond yn ofynnol at ddibenion sicrhau ansawdd ac er mwyn sicrhau cofnodi cyson.

Bydd gwybodaeth sy'n ymwneud â chytundeb contract yn cael ei chasglu er mwyn nodi a yw'r unigolyn ar gontract parhaol, tymor penodol neu dros dro. Mae'r wybodaeth hon yn hanfodol i ddeall cyfansoddiad a symudiadau cyfredol y gweithlu ysgolion.

Mae'r wybodaeth am fanylion staff, fel enw, rhif yswiriant gwladol a rhif cyfeirnod athro yn ofynnol er mwyn cysylltu data rhwng systemau darparwyr data a dibenion sicrhau ansawdd yn unig. Ar ôl trafod gyda datblygwyr meddalwedd, nodwyd bod yr eitemau o ddata yn rhan o'r set ddata ofynnol er mwyn dilysu cofnodion a pharu cofnodion ar draws systemau. Mae Llywodraeth Cymru'n sicrhau unigolion y bydd pob gwybodaeth yn cael ei chadw'n saff a diogel gydol y broses gyswllt.

## Cwestiynau 5 a 6

Pa effaith fyddai'r rheoliadau drafft yn eu cael, neu sut y gellid eu diwygio er mwyn cael effaith gadarnhaol:

- **ar gyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg?**
- **ar sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

### Crynodeb o'r ymatebion

Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau i gwestiwn y Gymraeg yn cydnabod y byddai'r rheoliadau drafft yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith.

Roedd pawb ar y cyfan yn cytuno y byddai mwy o wybodaeth am sgiliau Cymraeg y gweithlu o fudd i gynllunio'r gweithlu. Byddai'n helpu i nodi'r bylchau yn y ddarpariaeth Gymraeg ar hyn o bryd ac yn helpu i dargedu adnoddau, yn enwedig o ran bodloni strategaeth iaith y llywodraeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050:

- Bydd gwybodaeth well am y ddarpariaeth (neu'r diffyg darpariaeth) athrawon â sgiliau Cymraeg gobeithio yn helpu i sicrhau bod strwythur gwell ar waith ar gyfer recriwtio, cadw a datblygiad proffesiynol rhai sy'n siarad Cymraeg neu â diddordeb mewn dysgu'r Gymraeg. (Undeb)

- Bydd y cyfrifiad yn creu data defnyddiol ar gyfer cynllunio'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, er enghraifft, bydd data sy'n ymwneud â nifer yr athrawon sy'n gymwys i addysgu Cymraeg yn ddefnyddiol wrth benderfynu ar y ffordd orau o ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg. (Awdurdod lleol)

- Mae meini prawf mesur y Gymraeg uchod yn ddigonol er mwyn cynllunio ar gyfer cynyddu addysg ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg mewn ysgolion. (Sefydliad arall)

- Mae'r Undeb yn credu bod gwir angen casglu data ar allu'r gweithlu i siarad Cymraeg, mewn perthynas â pholisi Llywodraeth Cymru ar gynyddu niferoedd y siaradwyr Cymraeg. (Undeb)

Pwysleisiodd un undeb staff cymorth pa mor bwysig yw casglu gwybodaeth am staff dysgu cynorthwyol, nid dim ond athrawon ysgol:

- Mae staff cynorthwyol ysgolion yn dweud wrth UNSAIN bod eu galluoedd iaith ychwanegol yn cael eu hanwybyddu'n aml neu ddim yn cael eu cydnabod gan fod

pwyslais y polisi ar athrawon. Mae cofnodi'r wybodaeth hon yn gyfle cadarnhaol i fesur faint mwy o siaradwyr Cymraeg sydd yn ein hysgolion ni. (Undeb)

Dywedodd rhai ymatebwyr bod angen mireinio'r rheoliadau drafft fel bod y data a gesglir yn rhoi adlewyrchiad cywir o allu iaith Gymraeg y gweithle:

- Dylid ymgynghori'n bellach ac yn fanylach gyda rhanddeiliaid i lunio cwestiynau i fesur hyder a hyfedredd yn y Gymraeg, ar lafar ac yn ysgrifenedig. (Undeb)

- Nid yw'n glir a fydd paragraffau 13 ac 14 o Atodlen 1 yn darparu data cywir am lefel y cymwysterau neu'r gallu mewn perthynas â sgiliau'r Gymraeg. Mae angen diffinio hyn yn well. (Undeb)

- Awgrymwn fod Llywodraeth Cymru yn ystyried, fel rhan o'r dull o gasglu data'r cyfrifiad, gweithredu continwwm cymhwysedd ieithyddol yn seiliedig ar y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin (CEFR). Byddai hyn yn darparu darlun cliriach a mwy cywir o lefel cymwyseddau'r gweithlu o ran defnyddio'r Gymraeg. (Corff annibynnol)

Roedd llythyr a dderbyniwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg hefyd yn pwysleisio'r angen am wybodaeth fanylach ar allu'r gweithlu ysgolion i siarad Cymraeg:

- Nodir bod angen dealltwriaeth well o sgiliau Cymraeg y gweithlu a gallu'r gweithlu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg ac addysgu'r iaith… Bydd casglu data yn y maes hwn yn allweddol er mwyn asesu gallu'r gweithlu addysg i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg yn unol ag amcanion y Llywodraeth.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'n amlwg y byddai'r datblygiadau arfaethedig i gasglu data ar y gweithlu ysgolion yn cael effaith gadarnhaol ar asesu sgiliau Cymraeg cyfredol y gweithlu a thargedu adnoddau i wella hynny.

Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i ymgysylltu â sefydliadau er mwyn penderfynu pa feini prawf fyddai orau i ddangos gallu iaith Gymraeg ac yn mireinio'r eitemau o ddata penodol i'w casglu.

## Cwestiwn 7

**Rydym ni wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.**

### Crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd nifer o sylwadau ychwanegol ar yr ymgynghoriad. Un thema gyffredin oedd a fyddai unrhyw gymorth ariannol neu adnoddau'n cael eu darparu i ysgolion ac awdurdodau lleol er mwyn casglu data:

- Os oes angen cynnwys systemau adrodd, a fydd unrhyw gymorth ar gael i ysgolion neu awdurdodau lleol? (Awdurdod lleol)

- Er y byddwn yn gallu cyflenwi'r rhan fwyaf o'r wybodaeth ofynnol ar ran ysgolion, bydd ffynhonnell y wybodaeth honno'n dod o systemau gwahanol, e.e. systemau cyflogau SIMS ac Oracle… A fyddai unrhyw gymorth ariannol ar gael i awdurdodau lleol er mwyn helpu'r gweithredu cychwynnol? (Awdurdod lleol)

- …bydd llwyth gwaith y Cyfrifiad yn creu effaith yn y cyfnod hyd at y Cyfrifiad cyntaf er mwyn cydymffurfio â'r gofynion adrodd (Awdurdod lleol)

Hefyd, cafwyd sylwadau ar y gofyniad i Gyngor y Gweithlu Addysg ddarparu data ar lefel unigolion yn hytrach na data ar lefel crynodeb:

- Wrth gwrs, gellid trosglwyddo crynodeb o wybodaeth i'r Llywodraeth, er mwyn diwallu anghenion ystadegol heb dramgwyddo cyfrinachedd yr unigolyn. (Undeb)

Fe wnaeth NASUWT a Chyngor y Gweithlu Addysg hefyd ymateb yn uniongyrchol i feysydd penodol o'r rheoliadau drafft.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag awdurdodau lleol ac ysgolion i asesu effaith gweithredu'r dull o gasglu data ar y gweithlu ysgolion.

Bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal gyda Chyngor y Gweithlu Addysg er mwyn pennu pa wybodaeth y gellir ei darparu. Bydd Llywodraeth Cymru'n osgoi casglu data sydd eisoes ar gael yn y systemau er mwyn osgoi ailadrodd, ond mae angen gwybodaeth ar lefel unigolion. Does dim modd cysylltu data ar lefel grynodeb â ffynonellau eraill, fel cysylltu gwybodaeth am gymwysterau â data recriwtio neu gysylltu gwybodaeth dros amser, felly ni fyddai'n ychwanegu at gasgliadau data cyfredol.

Byddwn yn mynd i'r afael â sylwadau penodol ar y rheoliadau drafft ar sail achosion unigol gydag ymatebwyr unigol.

## Camau nesaf

Bydd Llywodraeth Cymru’n cynnal adolygiad o’r rheoliadau drafft, a fydd yn cynnwys cael gwared ar Atodlen 2. Byddwn yn archwilio’r sylwadau unigol ar feysydd rheoleiddio ac yn gwneud y newidiadau priodol.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu ag ysgolion ac awdurdodau lleol er mwyn penderfynu ar ddyddiad mwyaf priodol y cyfrifiad ac asesu pa effaith a gaiff y cyfrifiad ar adnoddau. Bydd gwaith ychwanegol yn cael ei wneud i weld pa wybodaeth sy’n cael ei chadw’n gywir mewn systemau ysgolion ac awdurdodau lleol a nodi pa feysydd sydd angen eu datblygu.

Bydd Llywodraeth Cymru’n parhau i drafod gyda Chyngor y Gweithlu Addysg er mwyn pennu pa ddata y gellir ei rannu o’r Gofrestr Ymarferwyr, ac ar ba lefel.

# Atodiad: Rhestr o'r ymatebwyr

ASCL Cymru
Anonymous (four responses)
ATL Cymru
Blaenau Gwent Council
Catholic Education Service
City and County of Swansea
City of Cardiff Council
Conwy County Borough Council
Dyfodol
Education Workforce Council
Estyn
Fairwater Primary School
Gary Brace
Governers Wales
GwE
Information Commissioner's Office
Malcolm James
Mark Brown, Ysgol Babanod T. Gwynn Jones
NAHT (Cymru)
The National Foundation for Educational
Research in England and Wales (NFER)
NASUWT Cymru
NUT Cymru
Royal Society of Chemistry
Statiaith
Torfaen County Borough Council
UCAC
UNISON Cymru Wales
Wellcome Trust
Welsh Language Commissioner
Wrexham County Borough Council
Vale of Glamorgan Council